# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(105)v3

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)** (Tudalennau 3 - 5)
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Buses

**3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Tâl Rhanbarthol (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Dyraniadau Cyfalaf (30 munud)**

**5. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, Doha 2012 (30 munud)**

**6. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Trosedd a Llysoedd mewn perthynas â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (15 munud)**

**NDM5088 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Bil Trosedd a Llysoedd sy'n diwygio adran 33(B) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n ymwneud â maint y digollediad y caiff llysoedd ynadon ei orchymyn mewn cysylltiad â cholled neu ddifrod a geir mewn perthynas â chostau glanhau gwastraff a ollyngir, a drinnir neu a waredir yn anghyfreithlon, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd

deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2012 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 29.2(iii).

**Dogfennau Ategol**
I weld copi o'r Bil ewch i:
[http://services.parliament.uk/bills/2012-13/crimeandcourts/documents.html](http://services.parliament.uk/bills/2012-13/crimeandcourts/documents.html)
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7. Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (60 munud)**
Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

**1. Ymyrryd mewn ysgolion a gynhelir – hysbysiadau a phwerau ymyrryd**
61, 62

**2. Canllawiau ar ymyrryd**
54, 55, 56, 57, 58

**3. Trefniadaeth ysgolion – gwneud a chymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt**
2, 59, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 20, 18, 19, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32,
33, 34, 35, 44, 45, 46, 49, 53

**4. Trefniadaeth ysgolion – sefydlu ysgolion sefydledig**
63

**5. Trefniadaeth ysgolion – cynigion ar ailstrwythuro addysg chweched dosbarth**
64, 65, 73, 74, 75, 76, 80

**6. Trefniadaeth ysgolion – rhesymoli lleoedd ysgol**
66, 67, 68

**7. Trefniadaeth ysgolion – darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig**
69, 70, 71, 72

**8. Cyfrifoldeb dros weithredu cynigion**

36, 50, 51, 52

**9. Trefniadaeth ysgolion – hysbysiad gan gorff llywodraethu ynghylch terfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol**

37, 38, 39, 40, 41

**10. Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg**
1, 77, 42, 43

**11. Brecwast am ddim mewn ysgolion**
78, 79

**12. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**
60

**13. Newidiadau rheoleiddiedig – rheoleiddio newidiadau i ddarpariaeth AAA**

47, 48

**Dogfennau Ategol**
Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o welliannau wedi'u didoli
Grwpio Gwelliannau

**8. Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (5 munud)**
Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os cytunir ar y cynnig.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

**9. Dadl ar wneud y gorau o Bolisi Caffael Cymru (60 munud)**

**NDM5132 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr effaith bositif y mae caffael cyhoeddus effeithiol yn ei chael ar economi Cymru;

2. Yn nodi Datganiad Polisi Caffael Cymru; a

3. Yn annog holl gyrff cyhoeddus Cymru i feithrin y gallu sy'n ofynnol i wneud y gorau o Bolisi Caffael Cymru.

**Dogfen Ategol**
Gellir dod o hyd i Ddatganiad Polisi Caffael Cymru yn:
http://wales.gov.uk/docs//cabinetstatements/2012/121206procurementpolicycy.doc

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

'ac yn cydnabod y camau sylweddol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un'

**Gwelliant 2 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod rheolau caffael cyhoeddus yr UE yn rhy gaeth, ac y dylid eu llacio er mwyn cynorthwyo busnesau lleol i gael mwy o gontractau gan y Llywodraeth.

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) roi gwybod yn glir i gymuned fusnes Cymru am unrhyw bolisïau caffael newydd; a

b) adolygu ei pholisïau caffael yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.

**Gwelliant 4 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhwymedigaeth orfodol ar bob corff cyhoeddus i weithredu Polisi Caffael Cymru.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau caffael yn fwy agored i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, er enghraifft drwy ddadfwndelu contractau ar gyfer gwaith y Llywodraeth.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y cwmnïau yng Nghymru sy'n ennill contractau caffael cyhoeddus yng Nghymru.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 16 Ionawr 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Ionawr 2013 i'w hateb ar 15 Ionawr 2013

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer 2013. OAQ(4)0835(FM)

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau iechyd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. OAQ(4)0850(FM)

**3. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa bolisïau o'r Rhaglen Lywodraethu y mae'n disgwyl eu cyflawni yn 2013. OAQ(4)0843(FM)

**4. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwaith sy'n cael ei wneud ar atal strôc yng Nghymru. OAQ(4)0842(FM)

**5. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd y Bathdy Brenhinol i economi de Cymru. OAQ(4)0849(FM)

**6. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu teuluoedd gyda phlant anabl i ymdopi â'r toriadau mewn budd-daliadau. OAQ(4)0846(FM)

**7. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn 2013. OAQ(4)0837(FM) **W**

**8. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Ym marn y Prif Weinidog, beth yw'r heriau a'r cyfleoedd i economi Cymru yn 2013. OAQ(4)0844(FM)

**9. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu a chynnal adeiladau rhestredig Gradd 1 yng Nghymru. OAQ(4)0838(FM)

**10. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith ar deuluoedd yng Nghymru yn sgîl y newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU i'r budd-daliadau mewn gwaith. OAQ(4)0845(FM)

**11. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Digwyddiadau Mawr. OAQ(4)0851(FM) **W**

**12. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin):** Pa wersi am fandio ysgolion uwchradd y mae'r Prif Weinidog yn ystyried eu bod yn berthnasol i ysgolion cynradd. OAQ(4)0847(FM) **W**

**13. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn y Gogledd-ddwyrain. OAQ(4)0836(FM)

**14. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ba gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod yr economi yng Ngorllewin De Cymru yn tyfu. OAQ(4)0848(FM)

**15. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â diffyg fitamin D. OAQ(4)0839(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Dydd Mawrth 22 Ionawr a dydd Mercher 23 Ionawr 2013**

**Dydd Mawrth 29 Ionawr a dydd Mercher 30 Ionawr 2013**

**Dydd Mawrth 5 Chwefror a dydd Mercher 6 Chwefror 2013**

**********************************************************************

**Dydd Mawrth 22 Ionawr 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (60 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter (30 munud)
- Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (60 munud)
  *"Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*
  *Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os cytunir ar y cynnig:*
  *Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). "*
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn (60 munud)

**Dydd Mercher 23 Ionawr 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Brentisiaethau yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud)

**Dydd Mawrth 29 Ionawr 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (60 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen TB mewn Gwartheg (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Gymwysterau 14-19 (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio - Darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau ddarparu data electronig i gwsmeriaid (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio - Diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (15 munud)

**Dydd Mercher 30 Ionawr 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Uwch-gynghrair Cymru (60 munud)
- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ar Ofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Mark Isherwood) (60 munud)
- Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 5 Chwefror 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (60 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Gwneud gwahaniaeth: Rôl amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd o ran mynd i'r afael â thlodi plant (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Twf a Seilwaith - Caniatâd Cynllunio Tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Twf a Seilwaith - Diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (15 munud)

**Dydd Mercher 6 Chwefror 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar Wahân i Gymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Losgi Gwastraff (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)